GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

# Llawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl ag ecsema atopig, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd

Medi 2004

Gwybodaeth am Arfarniad Technoleg 83 NICE

**Llawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl ag ecsema atopig, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Medi 2004
**Dyddiad adolygiad:** Medi 2007

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0611. Mae fersiwn Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0610. Mae arfarniad technoleg NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno, sef 'Laparoscopic surgery for inguinal hernia repair', ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') ar gael o'r wefan (www.nice.org.uk/TA083quickrefguide), neu o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0609.

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-675-5

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Medi 2004
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argreffir yn ôl y galw

© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Medi 2004. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw arweiniad NICE? | 4 |
| Beth yw torgest yr arffed? | 5 |
| Beth yw llawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed? | 6 |
| Beth mae NICE wedi ei argymell? | 7 |
| Beth ddylwn i ei wneud nesaf? | 9 |
| A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad? | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

## Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, mae NICE yn ystyried pa mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd pa mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'r gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael am ddefnyddio llawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed. Gofynnwyd i NICE ddarparu arweiniad a fydd yn helpu’r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylid defnyddio llawdriniaeth laparosgopig.

## Beth yw torgest yr arffed?

Bydd torgest yn digwydd pan fydd rhan o organ yn symud o'i lleoliad arferol drwy wendid yn y mur amgylchynol o gyhyr neu feinwe. Pan fydd hyn yn digwydd yn y werddyr, fe'i gelwir yn dorgest yr arffed. Bydd leinin mewnol yr abdomen (a elwir yn beritonewm) yn ymchwyddo drwy'r gwendid ym mur yr abdomen yn y werddyr. Yn aml, bydd y chwydd yn cynnwys rhannau o'r coluddyn (neu'r perfeddyn). O'r tu allan bydd yn ymddangos fel lwmp fel rheol, a gall achosi anesmwythyd. Mae'n bosibl y bydd torgest yr arffed yn cyfyngu ar weithgareddau o ddydd i ddydd a gallu'r person i weithio.
Yn achlysurol, gall y torgesti hyn arwain at farwolaeth claf os ceir rhwystr i'r coluddyn o fewn y lwmp (a elwir yn dorgest dagedig).

Mae'r rhan fwyaf o dorgesti'r arffed yn digwydd ymysg dynion (dynion yw 98 o bob 100 o bobl sy'n datblygu torgest yn eu gwerddyr). Bydd cymaint â 3 o bob 10 o bobl sy'n cael torgest ar un ochr o'u gwerddyr yn mynd ymlaen i ddatblygu ail dorgest ar yr ochr arall.

Y ffordd fwyaf cyffredin o atgyweirio torgest yr arffed yw drwy lawdriniaeth 'agored', lle y gwneir toriad ym mur cyhyrol abdomen y claf. Atgyweirir y dorgest fel rheol gan ddefnyddio rhwyll arbennig i atgyfnerthu'r cyhyr sydd wedi gwanhau.

## Beth yw llawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed?

Yn aml, cyfeirir at lawdriniaeth laparosgopig fel llawdriniaeth 'twll clo'. Yn wahanol i lawdriniaeth 'agored', atgyweirir y dorgest drwy ychydig o fân doriadau bach yn hytrach na gwneud un toriad mawr ym mur cyhyrol yr abdomen.

Gwneir toriadau bach iawn yn abdomen y claf a rhoddir telesgop hyblyg main (laparosgop) ac offerynnau arbenigol eraill i mewn drwy'r toriadau hyn. Fel rheol, defnyddir darn o rwyll synthetig i gau'r dorgest ac i atal y coluddyn rhag gwthio drwy fur y cyhyr unwaith eto.

Gall y llawfeddyg gyrraedd y dorgest mewn dwy brif ffordd.

- Cynhelir y weithdrefn atgyweirio torgest rhagberitoneol trawsabdomenol (TAPP) drwy geudod yr abdomen. Rhoddir offerynnau i mewn drwy fur yr abdomen a thrwy'r bilen sy'n ei leinio (a elwir yn beritonewm) sy'n amgáu organau'r abdomen. Tynnir un o labedi'r peritonewm yn ôl dros y dorgest, a defnyddir rhwyll i orchuddio'r ardal sy'n achosi problem ym mur yr abdomen. Yna, ailosodir y llabed a thynnir yr offerynnau allan.

- Yr ymagwedd allberitoneol llwyr yw'r dechneg twll clo fwyaf newydd. Yn y dull hwn, atgyweirir y dorgest heb fynd i mewn i'r ceudod peritoneol. Mae'r weithdrefn hon yn anos i'w chynnal, ond mae'n bosibl bod y risg o niweidio organau yn yr abdomen yn llai.

## Beth y mae NICE wedi ei argymell ar lawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed?

Yn ystod yr arfarniad, darllenodd a chlywodd Pwyllgor Arfarnu NICE dystiolaeth gan:

- astudiaethau o safon uchel o lawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed

- meddygon sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am dorgest yr arffed a sut i'w thrin

- unigolion sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y materion sy'n effeithio ar bobl sy'n dioddef o dorgest yr arffed

- sefydliadau sy'n cynrychioli barn y bobl yr effeithir arnynt gan yr arweiniad (oherwydd eu bod yn dioddef o'r cyflwr, neu'n gofalu am rywun sy'n dioddef ohono neu oherwydd eu bod yn gweithio yn y GIG ac yn darparu gofal i bobl sy'n dioddef o'r cyflwr)

- gweithgynhyrchwyr rhwyllau prosthetig ac offer laparosgopig.

Crynhoir y dystiolaeth yn yr arweiniad llawn (gweler y diwedd am fanylion). Ceir rhagor o fanylion am yr astudiaethau yn yr adroddiad asesu ar gyfer yr arfarniad hwn (gweler y diwedd am fanylion).

Mae NICE wedi gwneud yr argymhellion canlynol ynglŷn â defnyddio llawdriniaeth laparosgopig i drin torgest yr arffed o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Gellir defnyddio llawdriniaeth laparosgopig fel opsiwn ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed. Fel gyda phob llawdriniaeth, mae rhai risgiau ynghlwm, a allai gynnwys problemau difrifol yn syth ar ôl cael y llawdriniaeth, poen neu ddiffyg teimlad yn y man y cynhaliwyd y llawdriniaeth, a'r dorgest yn dychwelyd. Dylai eich meddyg esbonio risgiau a buddiannau pob math o lawdriniaeth (llawdriniaeth agored, neu lawdriniaeth laparosgopig gan ddefnyddio naill ai dulliau TAPP neu TEP) cyn i chi wneud penderfyniad ar ba ddull i'w gael. Wrth eich helpu i wneud y penderfyniad hwn, dylech chi a'ch meddyg yn arbennig ystyried:

- pa mor dda rydych yn debygol o ymdopi ag anesthetig cyffredinol

- p’un ai hon yw eich torgest gyntaf, neu p’un a yw wedi dychwelyd neu’n effeithio ar y ddwy ochr o’r werddyr
- p’un ai llawdriniaeth agored neu dwll clo fyddai’n gweithio orau ar gyfer eich torgest benodol
- faint o brofiad sydd gan y llawfeddyg o gynnal y tair techneg.

Dywedodd NICE hefyd mai dim ond llawfeddygon sydd wedi’u hyfforddi’n arbennig sy’n cynnal y weithdrefn yn rheolaidd, ddylai gynnal llawdriniaeth laparosgopig i atgyweirio torgest yr arffed drwy TAPP neu TEP.

## Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

Os ydych chi neu rywun rydych yn gofalu amdano yn dioddef o dorgest yr arffed, dylech drafod yr arweiniad hwn gyda’ch arbenigwr.

## A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad ei adolygu ym mis Medi 2007.

# Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn ar lawdriniaeth laparosgopig ar gyfer atgyweirio torgest yr arffed a roddwyd i'r GIG ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r adroddiad asesu, sy'n cynnwys manylion yr astudiaethau yr edrychwyd arnynt, hefyd ar gael ar wefan NICE. Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') ar gael ar y wefan ac o Linell Ymateb y GIG (rhif cyfeirnod N0609).

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dorgest yr arffed ar wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 4647.